# Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

**2019 dccc 3**

**RHAN 5**

YMCHWILIO I GWYNION SY'N YMWNEUD Â PHERSONAU ERAILL: GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL LLINIAROL

*Gweithdrefn ymchwilio a thystiolaeth*

**53 Gwybodaeth, dogfennau, tystiolaeth a chyfleusterau**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion ymchwiliad o dan y Rhan hon.

(2) Caiff yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i berson sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn gallu cyflenwi gwybodaeth neu ddangos dogfen sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, i wneud hynny.

(3) Mae gan yr Ombwdsmon yr un pwerau â'r Uchel Lys o ran—

(a) presenoldeb tystion a holi tystion (gan gynnwys gweinyddu llwon a chadarnhadau a holi tystion dramor), a

(b) dangos dogfennau.

(4) Caiff yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i berson sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn gallu cyflenwi gwybodaeth neu ddangos dogfen sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, ddarparu unrhyw gyfleuster y caiff yr Ombwdsmon ei wneud yn rhesymol ofynnol.

(5) Yn ddarostyngedig i is-adran (6), ni chaniateir gorfodi unrhyw berson i roi unrhyw dystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfen na allai'r person gael ei orfodi i'w rhoi neu ei dangos mewn achosion sifil gerbron yr Uchel Lys.

(6) Nid oes gan y Goron hawl i unrhyw fraint o ran dangos dogfennau neu o ran rhoi tystiolaeth a fyddai'n cael ei chaniatáu fel arall yn ôl y gyfraith mewn achosion cyfreithiol.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Adran 53 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 18 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(7) Pan fo rhwymedigaeth i gadw cyfrinachedd neu gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth a gafwyd gan bersonau yng ngwasanaeth Ei Mawrhydi, neu a roddwyd i bersonau yng ngwasanaeth Ei Mawrhydi, wedi'i gosod gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol, nid yw'r rhwymedigaeth neu'r cyfyngiad yn gymwys i ddatgelu gwybodaeth at ddibenion yr ymchwiliad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 53 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 77(1)**

**I2** A. 53 mewn grym ar 23.7.2019 gan O.S. 2019/1096, **rhl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Adran 53 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 18 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 2 para. 6
- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 12 para. 7(2)

Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(a) (Welsh language text)
- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(b) (English language text)